



# YSGOL GYNRADD PARC Y BONT

Llanddaniel Fab, Ynys Môn, LL60 6HB

☎ 01248 422350 ✉ [pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk](mailto:pennaeth.parcybont@ynysmon.gov.uk)

Pennaeth / *Headteacher*: Mr Iwan Wyn Taylor



17 Ebrill 2020

Annwyl Rieni,

Rwyf yn mawr obeithio eich bod yn cadw yn saff ac yn iach yn ystod y cyfnod anodd a dyrws yma. Rwy'n cymryd eich bod yn ymwybodol na fydd ysgolion Cymru yn ail-agor yn dilyn gwyliau'r Pasg yn dilyn datganiad y Gweinidog Addysg yr wythnos yma. Bydd y Gweinidog yn rhoi cyfarwyddyd i agor yr ysgolion pan fydd yn ddiogel ac yn saff i wneud hynny. Cofiwch ein bod yma i'ch cefnogi chi – os oes ganddoch chi unrhyw bryderon, cwestiynau, neu os hoffech sgwrs, yna cysylltwch â mi neu un o'r athrawon ar bob cyfrif.

## **'Dysgu o Adra'**

O ddydd Llun 20/4/20 ymlaen fe fyddwn yn gosod tasgau gwahaniaethol i'r plant eu cwblhau drwy ein llwyfannau digidol ar-lein. Bydd y llwyfannau yma yn ddolen gyswllt dda rhwng y plant a'r athrawon. Bydd y gweithgareddau yno i'ch cefnogi chi a'ch plentyn – os gwelwch yn dda, peidiwch â theimlo fod rhaid cwblhau pob un tasg unigol. Fel yr wyf eisioes wedi pwysleisio, ein blaenoriaeth ni oll ar hyn o bryd yw llesiant ac hapusrwydd y plant – mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i leddfu eu pryderon ac nad ydynt yn pryderu yn ormodol am 'waith ysgol'.

## **Cyfnod Sylfaen (Meithrin – Bl.2)**

Bydd athrawon y Cyfnod Sylfaen yn defnyddio ap **'See-Saw Class'** fel modd i rannu tasgau a gweithgareddau gwahaniaethol i'w cwblhau adref. Byddwch chi / eich plentyn yn gallu uwchlwytho tasgau sydd wedi eu cwblhau i sylw yr athrawon ac fe fyddent yn gallu gadael sylwadau ar y tasgau.

Os gwelwch yn dda, llawrlwythwch ap **'See-Saw Class'** ar eich tabled / ipad / ffôn glyfar. Y ffordd hawddaf i ddefnyddio See-Saw yw ar dabled / ipad. (Fel arall, mae modd cael mynediad i See-Saw drwy'r wê ar gyfrifiadur drwy deipio **app.seesaw.me** i'ch porwr). Byddwch angen clicio ar *'I'm a Student'* ac yna teipio *'text code'* unigryw eich plentyn i gael mynediad at dasgau. Bydd côd unigryw eich plentyn yn cael ei rannu â chi drwy neges destun dros y dyddiau nesaf.



Bydd tasgau yn cael eu gosod o fewn y tab *'activities'* a bydd y plant yn gallu dangos y gwaith maent wedi ei gyflawni, os ydynt yn dymuno, drwy glicio ar y botwm *'Add response'*. Dyma i chi fideo byr a defnyddiol os ydych chi yn teimlo eich bod angen cyfarwyddyd pellach: <https://www.youtube.com/watch?v=OHB24Y-ALLY&feature=youtu.be>

Cysylltwch â'r athrawon dosbarth os â unrhyw gwestiwn am y gwaith:

Bl.1&2 - Miss Angharad Williams: [williamsA1665@hwbcymru.net](mailto:williamsA1665@hwbcymru.net)

M/D - Mrs Buddug Jones: [JonesB598@hwbcymru.net](mailto:JonesB598@hwbcymru.net)

Bydd yr athrawon yn ymateb i bob ebost yn ystod oriau ysgol / dyddiau gwaith.

## **Cyfnod Allweddol 2 (Bl. 3-6)**

Bydd Blynnyddoedd 3 i 6 yn parhau i ddefnyddio **Google Classroom** ar **'Hwb'** fel eu llwyfan dysgu digidol gan dderbyn ac ymateb i weithgareddau a thasgau drwy'r llwyfan yma. Rydym wedi anfon enwau defnyddiwr a chyfrineirau cyn gwyliau'r Pasg. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion; yn arbennig disgyblion Bl.5&6; yn gallu defnyddio y llwyfan yma yn gwbl annibynnol. Bydd y plant yn gallu anfon negeseuon a chwestiynau i'r athrawon drwy'r llwyfan yma. Os oes ganddoch chi, fel rhieni, unrhyw gwestiwn i'r athrawon yna anfonwch ebost o.g.y.dd ac fe fydd yr athrawon yn ymateb yn ystod oriau ysgol / diwrnod gwaith:

Yr.5&6 - Mr Rhys Ynyr Jones: [JonesR919@hwbcymru.net](mailto:JonesR919@hwbcymru.net)

Yr.3&4 - Mrs Siân Owen: [OwenS152@hwbcymru.net](mailto:OwenS152@hwbcymru.net)

## **Cyrsiau Preswyl Glan Llyn a Llangrannog**

Mae'r ddau gwrs wedi ei ganslo. Mae manylion parthed ad-daliadau i ddilyn wythnos nesaf.

**Rhieni sydd yn gymwys i dderbyn gofal plant am ddim o ganlyniad i'r Pandemig**

Os gwelwch yn dda, gadewch i Mrs Gillian Morris, Swyddog Cefnogi Ysgol wybod cyn gynted â bo'r modd os ydych chi angen defnyddio'r ddarpariaeth drwy ebostio: [swyddfa@parcybont.anglesey.sch.uk](mailto:swyddfa@parcybont.anglesey.sch.uk). Gofynnwn yn garedig i chi sicrhau eich bod yn defnyddio ein darpariaeth fel y dewis olaf.

Cofion,

**Iwan Wyn Taylor**

**(Pennaeth)**